OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3146 (Cy.292)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (Awdurdodaeth) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *17 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraffau 14(3) a 15(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**):

**1.** Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (Awdurdodaeth) 2002 a daw i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

**2.** Bydd gan Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 effaith yn ddarostyngedig i'r diwygiadau canlynol:

(a) Ym mharagraff 14(2) o'r Atodlen a enwyd ar ôl "the Forestry Commissioners," mewnosodir—

"(da) the Higher Education Funding Council for Wales,

(db) the National Council for Education and Training for Wales,",

(b) Ym mharagraff 15(1) o'r Atodlen a enwyd, ar ôl nodyn 2 ychwanegir—

"**2A.** In the case of the National Council for Education and Training for Wales no investigation may be conducted by the Welsh Administration Ombudsman in respect of action taken by virtue of paragraph 11 or 12 of Schedule 10 to the Learning and Skills Act 2000."(**2**).

(**1**) 1998 p.38; diwygiwyd paragraff 14(2) o Atodlen 9 gan adran 6 (3) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14) a chan adran 73(1) a (3) (a) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21).

(**2**) 2000 p.21.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

*D. Elis-Thomas*
17 Rhagfyr 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae paragraff 14(1) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn darparu mai'r cyrff sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (yr Ombwdsmon) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a'r cyrff a restrir ym mharagraff 14(2) o'r Atodlen honNo.

Mae paragraff 14(3) o'r Atodlen honno yn darparu y gall y Cynulliad drwy orchymyn ddiwygio paragraff 14(2) drwy ychwanegu neu ddileu unrhyw gorff neu drwy newid disgrifiad unrhyw gorff.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (gweler Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 mewn perthynas ag ef) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (gweler Rhan 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mewn perthynas ag ef) at y cyrff a restrir yn y paragraff 14(2) a enwyd.

Mae paragraff 15(1) o'r Atodlen honno yn cynnwys nodiadau sy'n cyfyngu ar gwmpas swyddogaethau ymchwilio yr Ombwdsmon mewn perthynas â rhai o'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff 14(2) neu'r cyfan ohonynt.

Mae paragraff 15(2) yn darparu y gall y Cynulliad drwy orchymyn ddiwygio paragraff 15(1) drwy ychwanegu, hepgor neu ddiwygio unrhyw nodyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu Nodyn i baragraff 15(1). Mae'r Nodyn hwnnw yn darparu na all yr Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw gŵ yn yn erbyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant pan fo'r gŵ yn yn ymwneud â gweithred a gymerwyd yn wreiddiol gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac sydd ond yn cael ei thrin fel pe bai wedi'i chymryd gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant drwy rinwedd paragraff 11 neu 12 o Atodlen 10 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.